# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 2il 2026 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gwenda Evans, (cadeiryddes), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Dewi Pritchard, Gwenda Morris, Gary Thomas, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones ac Iolo Evans.

Dymunwyd penblwydd priodas arbenig iawn i Rita a Aled Jones. Dymunwyd yn dda hefyd i Bethan Thomas ar ei ymddeoliad fel gwarchodwyr plant. Mae plant yr ardal wedi bod yn ffodus iawn o'i gofal arbennig dros y 25 mlynedd diwethaf.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Cofnodwyd y buddiant perthnasol wrth yr ohebiaeth cynllunio.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ethol is-gadeirydd.</u>
Cytunodd Gary Thomas i fod yn is-gadeirydd.

<u>b) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-</u>
i) Sbwriel ar hyd y ffordd ac yn y gilfan ger y goleuadau traffig dros dro ym Methel – adroddodd y cynghorwyr fod y sbwriel dal yno.
ii) Coed ger mynedfa Clwb Carafanau Cefnddwysarn - roedd gweithwyr wedi cael ei gweld ar y safle ac felly roedd y cynghorwyr yn gobeithio y byddant yn tocio'r coed wrth y fynedfa hefyd.

<u>c) Lloches bws newydd i Lanfor.</u>
Roedd wedi dod i'r amlwg fod bwriad i osod lloches ar y safle yn 2022 ond oherwydd gwrthwynebiad lleol ni symudwyd y cynllun yn ei flaen a chynghori'r Cyngor Cymuned o hyn. Roedd y clerc wedi bod yn trafod y safle gydag un o Swyddogion Ymgynghoriaeth Gwynedd, ac yn aros i glywed yn nôl os fydd Llanfor yn cael ei gynnwys yn eu cynlluniau ar gyfer 2026/27.

<u>ch) Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026.</u>
Dosbarthwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer ailwynebu ffordd Mynwent Llandderfel ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gynnwys pris Oswyn Roberts gyda'r cais grant.

## <u>v) Gohebiaeth</u>

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Cofnodion Cyfarfod Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Ebrill 29ain.
ii) Cyfyngiad traffig dros dro – Llandderfel, 2/09/26.
iii) Ymgynghoriad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd – yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi'r pwyntiau canlynol:

1) ymwelwyr un dydd sydd yn rhoi pwysau ar y gwasanaethau lleol fwyaf, parcio anystyriol, sbwriel ayyb
2) nifer o campervans yn parcio ar ochrau'r ffyrdd ac ni fydd rhaid iddyn nhw dalu'r ardollau yma, sy'n anheg.
3) pwysau ychwanegol a'r perchnogion gwestai, tai gwyliau ayyb i gasglu'r arian a chwblhau'r gwaith papur.
4) pwysigrwydd defnyddio unrhyw refeniw a godwyd o'r ffioedd yma yn gyfrifol.

ii) Cyflwr mynwent Rama – derbyniwyd llythyr yn nodi eu siom am gyflwr y fynwent. Yn anffodus nid y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol amdani ac nid oedd neb yn gwybod pwy oedd. Roedd hen drefniant gyda ffermwr lleol yn rheoli'r glaswellt gan gadw defaid yno, ac os na fyddai yn gwneud hyn, byddai'n tyfu'n wyllt.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-
PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen – diweddariad. Trafodwyd yr wybodaeth ychwanegol a oedd wedi cael ei gyflwyno. Cytunwyd nad oedd yr wybodaeth yma yn ymateb i'r pryderon a gyflwynwyd eisoes ac a gofynwyd i'r clerc anfon y sylwad yma i'r arolygwr. (Gwynedd Jones yn datgan buddiant a ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth).

**vi) Materion Ariannol.**

a) Archwiliad Blynyddol.
Yn anffodus nid oedd yr archwilwyr allanol wedi cwblhau'r archwiliad cyn y cyfarfod felly nid oedd posib ardystio'r ffurflen flynyddol.

b) Derbyniadau.
Derbyniwyd yr ad-daliad TAW o £1770.33.

c) Ceisiadau Ariannol.
Cafwyd cais gan Kids Cancer Charity. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) B4402, Llandderfel i Fethel - rhan o'r ffordd di disgyn ac angen sylw.
ii) B4401, Llandderfel ger Boderyl – eto rhan o'r ffordd yn rhoi.
iii) Ffordd newydd wedi cael ei greu yn Ciltalgarth gan Tillhill – doedd y Cyngor heb gael eu cynghori o'r datblygiad yma. Doedd yr arwyddion ffordd i rybuddio gyrrwyr ddim yn ddigonol ac roedd pryder am ddiogelwch gyrrwyr.
iv) B4501, Cwmtirmynach – nifer o gerbydau yn cael difrod i'w olwynion oherwydd bod cerbydau mawr yn malu ochr y ffordd ac yn tynnu cerrig i lawr.

**Cytunwyd i symud cyfarfod mis Gorffennaf i Fehefin 30ain er mwyn cael ardystio'r ffurflen flynyddol. Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 30ain am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Derfel.**



Arwyddwyd: ………………………………………….    Dyddiad: …………………………………..